# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 19 Mawrth 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

## 198(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Dadl: Adroddiad terfynol y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru

(60 munud)

**NDM8522** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd yn cymeradwyo'r casgliadau a'r argymhellion yn Adroddiad Terfynol y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, ac yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion.

[Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru: adroddiad terfynol | LLYW.CYMRU]

[Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad terfynol y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru | LLYW.CYMRU]

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** [Darren Millar (Gorllewin Clwyd)]

Dileu 'cymeradwyo' a rhoi 'nodi' yn ei le

## 4 Datganiad gan y Prif Weinidog: Datganiad Ymddiswyddo

(30 munud)

## 5 Dadl: Cyfnod 3 y Bil Seilwaith (Cymru)

(180 munud)

**1. Prosiectau Seilwaith Arwyddocaol: Ynni**

34, 4, 5, 35, 38

**2. Prosiectau Seilwaith Arwyddocaol: Arall**

6, 7, 8, 9

**3. Gwneud cais am gydsyniad Seilwaith: Cymorth i geisyddion**

25, 10

**4. Gwneud cais am gydsyniad Seilwaith: Y weithdrefn cyn gwneud cais a'r weithdrefn gwneud cais**

26, 27, 32, 28, 33, 1, 11

**5. Archwilio ceisiadau**

29, 21, 22, 23, 24, 30, 12, 13

**6. Polisiau statudol a materion perthnasol eraill**

14, 15, 36, 37

**7. Y penderfyniad**

16

**8. Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith**

31, 17, 18, 19, 3, 2

**9. Swyddogaethau atodol: Datganiadau Polisi Seilwaith**

20

Dogfennau Ategol

Bil Seilwaith (Cymru), fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 2

Memorandwm Esboniadol

Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli

Grwpio gwelliannau

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Y Rhaglen Buddsoddi ar gyfer Llifogydd 2024/25 - i'w gyflwyno fel Datganiad Ysgrifenedig

(0 munud)

## 7 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol: Ailgydbwyso gofal a chymorth - i'w gyflwyno fel Datganiad Ysgrifenedig

(0 munud)

## 8 Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2024

(5 munud)

**NDM8520** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2024 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2024.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Ymateb y Llywodraeth

## 9 Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) (Diwygio) 2024

(5 munud)

**NDM8521** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) (Diwygio) 2024 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Chwefror 2024.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Ymateb y Llywodraeth

## 10 Cynnig i atal Rheolau Sefydlog

(5 munud)

**NNDM8528** Mick Antoniw (Pontypridd)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.20(i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn am yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i ddadl ar NNDM8526 a NNDM8527 gael ei hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth, 19 Mawrth 2024.

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân

(5 munud)

## 11 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel) – cynnig 1

**NNDM8526** Mick Antoniw (Pontypridd)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel), sef, cymal 3 sy'n ymwneud â chaffael cyhoeddus, a chymal 4 sy'n ymwneud â dynodiadau tarddiad a dynodiadau daearyddol, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Rhagfyr 2023 a gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ionawr 2024 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Ceir copi o'r Bil ar wefan Senedd y DU:

Y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel) [HL] (parliament.uk) (Saesneg yn unig)

## 12 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel) – cynnig 2

**NNDM8527** Mick Antoniw (Pontypridd)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel), sef, cymal 2, trin cyrff asesu cydymffurfiaeth etc., i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Rhagfyr 2023 a gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ionawr 2024 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Ceir copi o'r Bil ar wefan Senedd y DU:

Y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel) [HL] (parliament.uk) (Saesneg yn unig)

## 13 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 20 Mawrth 2024